Papur Bro Abertawe

WILIA

RHIFYN 487 HYDREF 2026 | AM DDIM

CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH - DAVID GWYN JOHN

Roedd cyfarfod mis Medi o'r Gymdeithas yn deyrnged i David R. Griffiths y bardd o'r Betws a ddefnyddiodd yr enw barddol "Amanwy." Ef oedd testun y ffilm "David" a chynlluniwyd gan y darlledwr Alun Talfan Davies ar gyfer Gŵyl Brydain yn 1951. Yn rhagarweiniad i'r ffilm fe gyflwynodd David Gwyn John ychydig o hanes y bardd a ddarllenwyd darnau o'i waith gan y prifardd Robat Powell. Ganwyd "Amanwy" yn 1882 i William, gof y pentre, a'i wraig Margaret . Yn ddeuddeg oed dechreuodd weithio tan ddaear yn hen bwll y Betws gan weithio mewn nifer amrywiol o byllau ar draws y De nes dychwelyd i'w gynefin i weithio ym mhwll newydd Pantyffynnon yn 1903. Yno yn 1908 anafwyd David mewn tanchwa a gymerodd bywyd ei frawd hynaf, Gwilym. Wrth wella o'i anafiadau aeth ati i astudio barddoniaeth yn Ysgol Farddol y Gwynfryn ac erbyn 1910 roedd yn cystadlu yn gyson mewn eisteddfodau ar draws y Wlad.

Yn 1923 fe olygodd "O Lwch y Lofa" casgliad o gerddi gan feirdd o lowyr a werthwyd i godi arian i gynorthwyo un o'i gyd-lowyr, Gomer Roberts, astudio ar gyfer y weinidogaeth. Dechreuodd ysgrifennu colofn yn yr "Aman Valley Chronicle" a phapurau eraill. Rhoddodd y gorau i weithio tan ddaear yn 1928 pan dderbynodd swydd y gofalydd yn Ysgol y Sir, Rhydaman. Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1932 fe ddaeth yn agos iawn at gipio'r goron gydag un o'r tri beirniad, Cynan, yn gosod pryddest "Amanwy" ar y blaen.

Yn 1944 dechreuodd ysgrifennu sgriptiau radio i raglenni Alun Talfan Davies. Gwelodd y darlledwr "Amanwy," fel "y glowr delfrydol a diwylledig" ac yn destun addas i'r ffilm. Castiwyd "Amanwy" i chwarae ei hun ac ymddangosodd y Parchedig Gomer Roberts ynddi hefyd. Cafodd y ffilm adolygiad ffafriol dros ben gan adolygwyr ffilm y cyfnod ac roedd aelodau'r Gymdeithas yn frwd iawn yn eu canmoliaeth hefyd. Ar ddiwedd y perfformiad fe ddatgelodd un o aelodau'r Gymdeithas, Dr Terry Williams, iddo ymddangos yn y ffilm mewn golygfa ar fuarth yr Ysgol!!

Roedd "Amanwy" yn Gymro i'r carn ond nid oedd yn genedlaetholwr. Canmolodd y glowr ar bob cyfle a chadwodd yn driw i'w frawd James (Jim) Griffiths a ddaeth yn Aelod Seneddol dros y Blaid Lafur yn 1936 a'r cyntaf i gael ei benodi i swydd Ysgrifennydd Cymru. Bu farw "Amanwy" yn 1953 a chladdwyd ei weddillion ym Mynwent Capel Gellimanwydd, Rhydaman.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Festri Seion Newydd, Treforys am 7.00.y.h. nos Iau Hydref 15fed. Fe fyddwn yn dathlu 75 mlynedd o addysg Gymraeg yn y Rhondda yng nghwmni Gavin Ashcroft, Prifathro Ysgol Heol y Celyn.



MERCHED Y WAWR GORSEINON
- CATRIN STEVENS

Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod cyntaf Tymor 2026-27 cangen Merched y Wawr Gorseinon. Rydym yn cwrdd yn yr Institiwt, Gorseinon ar nos Llun olaf y mis (gan amlaf) am 7 o'r gloch. Mae dalgylch y gangen yn eang ac yn cynnwys pentrefi Casllwchwr, Gorseinon, Pontlliw, Penlle'r gaer, Penyrheol a Thregŵyr ac mae croeso cynnes i aelodau newydd. Mae'r rhaglen yn amrywiol iawn – daeth Rhinedd Williams, Arolygydd Gwisgoedd Gorsedd Cymru atom i agor y tymor ym mis Medi a chafwyd cyflwyniad cartrefol addysgiadol ardderchog trwy Bwynt-pwer a chyfle i weld a modelu'r gwisgoedd hardd. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn croesawu Dysgwr y Flwyddyn 2026 – Jonathan Davies sy'n wreiddiol o Gasllwchwr ac felly'n lleol iawn i ni. Braf nodi bod gennym nifer dda o ddysgwyr ardderchog yn aelodau a bydd y noson hon ar nos Lun 26ain Hydref yn agored i ddysgwyr eraill a hoffai ymuno (gan gynnwys dynion!). Daw cyfle ym mis Tachwedd i ymarfer ein sgiliau chware Bingo a bwyta Sglodion ac ar yr un pryd byddwn yn cyfrannu at ymgyrch y Llywydd Cenedlaethol, Bethan Picton Davies, sef Ymchwil Cancr Cymru, 'Positifrwydd Pinc'.



NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

CYMRU MEWN PENWYTHNOS- MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Mae criw o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe newydd ddychwelyd o daith 'Cymru Mewn Penwythnos'! Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol oedd gyntaf a diolch i Ben O Ceallaigh o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth am gynnal sesiwn yn sôn am adferiad iaith a rhoi blas i ni ar y Wyddeleg. Treuliwyd nos Wener yng Ngholeg y Bala a mwynhau 'take away' a chwis. Fore Sadwrn, galw ger Llyn Tryweryn, yna'r gofeb i Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd cyn teithio i Lanfair PG a chael llun o dan yr arwydd enwog! Diolch yn fawr i Myrddin ap Dafydd am gynnal sgwrs â ni am y gerdd 'Gwenllian' yng Nghaernarfon a chlywed y bardd ei hun yn darllen ei gerdd. Rhyd-ddu oedd y lleoliad nesaf i weld cartref T.H.Parry Williams, yna Bedd Gelert ac ymlaen â ni i Flaenau Ffestiniog i weld ardal Gwyn Thomas. Noson arall yng Ngholeg y Bala nos Sadwrn a phryd o fwyd yn nhafarn yr Eagles. Fore Sul, ymweld â'r Ysgwrn ac yna cael ein hysbrydoli yng nghwmni Mererid Hopwood ym Mynachlog Ddu. Diolch yn fawr i Cerwyn Davies am agor festri'r capel i ni gael gweld arddangosfa Waldo gan yr artist Meirion Jones ac yna cawsom ddarlleniad o'r gerdd 'Preseli' gyda Mererid ger carreg goffa Waldo. Nôl â ni wedyn i'r ysgol wedi blino'n lân ar ôl gweld Cymru mewn penwythnos!





CANU GYDA CHÔR IEUENCTID CENEDLAETHOL CYMRU- CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Maiwenn Watson a gafodd y cyfle i berfformio mewn cyngerdd yn Neuadd y Brangwyn ar ddechrau mis Hydref. Roedd yn gyngerdd ar y gyd gyda Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC, ac yn brofiad anhygoel iddi. Hyfryd hefyd oedd bod Mr Williams yn canu gyda'r corws a'r ddau yn cael rhannu'r profiad.



NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

BUDDUGOLIAETH I'R TÎM SEICOLEG - ELERI WILLIAMS, PENNAETH YR ADRAN SEICOLEG

Llongyfarchiadau enfawr i'n myfyrwyr ar ennill Gwobr Aur cystadleuaeth Genedlaethol Yr Her Seicoleg Fawr ar ddiwedd tymor yr Haf eleni. Ymhlith dros 100 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru, bu'r her yn ymchwilio i'r cwestiwn: "Sut gall deall y meddwl dynol ein helpu i daclo'r argyfwng hinsawdd?"

Dyfarnwyd y Wobr Aur i Ysgol Gyfun Gŵyr am ddangos:

"Rhagoriaeth wrth ymchwilio i seicoleg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth," ac am gyflwyniad "eithriadol, creadigol ac arloesol a ddefnyddiodd arbrawf gwyddonol, cysyniadau seicolegol, ymdriniaeth ardderchog o faterion dibynadwyedd a dilysrwydd, a dadansoddiad ymestynnol o ddata casgliadol."

Yn ganlyniad i ennill y wobr aur mae'r tîm wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno ffrwyth eu hymchwil ar brif lwyfan Cynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Seicolegol Brydeinig, Cangen Cymru, yng Nghaerdydd ym mis Hydref! Mae hon yn fraint anhygoel ac yn gyfle arbennig i rannu eu syniadau a'u hymchwil ar lwyfan cenedlaethol ochr yn ochr ag arbenigwyr ym maes seicoleg.

Rydym mor falch o Nia, Isla, Harri, Ella ac Imogen o flwyddyn 13, i am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u llwyddiant arbennig. Llongyfarchiadau enfawr i chi gyd a phob hwyl i chi yn y gynhadledd!

Diolch o galon i'r partneriaid a'r beirniaid hefyd am gynal y weithgaredd:

- Academi Seren
- Y Gymdeithas Seicolegol Brydeinig
- Prifysgol Caerdydd
- Canolfan Delweddu'r Ymennydd CUBRIC
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd



GWOBR EUSTORY MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG, 2026 - ELERI WILLIAMS, PENNAETH YR ADRAN SEICOLEG

Ym mis Mai eleni cawsom glywed bod Heledd Francis bryd hynny ym mlwyddyn 13 wedi llwyddo i ennill Gwobr EUSTORY Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig, 2026, drwy gyflwyno ei Phrosiect Ymchwil a chyflawnodd yn rhan o'i astudiaethau BAC eleni. Cystadleuaeth yw hon ar gyfer myfyrwyr Chweched Dosbarth ble bo gofyn iddynt gyflwyno prosiect ymholiad sy'n ymwneud â threftadaeth Gymreig, sy'n waith gwreiddiol, yn seiliedig ar ymchwil, dadansoddi a gwerthuso. Rhwydwaith o fudiadau (a noddir gan Sefydliad Körber) sy'n cynnal cystadlaethau hanes, yn seiliedig ar ymchwil, ar gyfer pobl ifanc yn Ewrop yw EUSTORY. Mae hwn yn dipyn o gamp, gyda'r fenter yn cyhoeddi y cafwyd record o geisiadau eleni. Ei theitl ymchwil oedd "Pa ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar y sianws o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?".

Yn ganlyniad, cafodd wahoddiad arbennig i fynychu Cynhadledd Rhwydwaith Eustory a gynhaliwyd 7-11 Medi yn Hamburg, yr Almaen. Fel ysgol, roeddem yn eithriadol o falch o Heledd, a'i balchder yn ei Chymreictod i'w ddathlu. Cafodd brofiad bythgofiadwy yn Hamburg mewn gweithdau, darlithoedd ac ar amrywiol alldeithiau tra'n rhwydweithio gydag ennillwyr eraill o 22 o wledydd Ewropeaidd. Am ddechrau arbennig iawn i'w llwybr ôl 18 a sylfaen wych i'w hastudiaethau newyddiaduraeth. Llongyfarchiadau enfawr I ti Heledd!





Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn Hydref 26ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

TAITH GERDDED GŴYL DROS Y BONT

Mae ein teithiau cerdded ar y cyd gyda Menter Iaith Cwm Gwendraeth Elli yn dod i ben am y flwyddyn gydag un taith olaf fel rhan o Ŵyl Dros y Bont!

Dewch am dro o amgylch yr Hendy o dan arweiniad Geraint Price, i ddysgu am hanes yr ardal leol.

16.10 - Yr Hendy (cyfarfod ym maes parcio Canolfan Gwili)



CLWB HWYL Y GWYLIAU

Ymunwch â ni yn ystod wythnos gyntaf y gwyliau ar gyfer Clwb Hwyl y Gwyliau, ein cynlluniau chwarae i blant 8-11 oed!

Bydd y sesiynau yma yn rhedeg rhwng 10:00-12:00 ar safle Ysgol Gyfun Gŵyr ar ddydd Llun 26/10 a dydd Mawrth 27/10, ac ar safle Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ar ddydd Mercher 28/10 a dydd Iau 29/10.
£1 y pen ar gyfer pob sesiwn - llefydd cyfyngedig ar gyfer pob diwrnod ar gael i'w harchebu nawr trwy menterabertawe.org/archebu.



SESIWN STORI A SYMUD GYDA LOWRI SION

Dewch ar antur ddirgel a hwyliog yng nghwmni Lowri Siôn wrth i ni geisio datrys Dirgelwch y Gath Ddu!

Sesiwn stori a symud arbennig ar gyfer Calan Gaeaf. Addas ar gyfer plant 3-7 oed. Bydd y sioe yn cychwyn am 11:30.


£5 i blant/£8 i oedolion. Tocynnau ar gael i'w harchebu nawr drwy www.ticketsource.com/menter-iaith-abertawe



SIOE FLOSSY & BOO: CARW

Codwch eich cyrn ac ymunwch â'r fuches wrth i ni ddilyn Carw doeth drwy fynyddoedd Cymru a thu hwnt. Adroddir y stori glyd hon drwy gerddoriaeth, pypedwaith a gweithgareddau synhwyraidd sy'n berffaith i blant dan 5 oed a'u teuluoedd.

Perfformir Carw yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ei wneud yn ddelfrydol i siaradwyr y naill iaith neu'r llall, neu i'r rhai sy'n dysgu'r ddwy.
Bydd y sioe yn cychwyn am 11:30.
£5 i blant/£8 i oedolion.
Tocynnau ar gael i'w harchebu nawr drwy www.ticketsource.com/menter-iaith-abertawe



Cowbois Rhos Botwnnog
Haul Bach
Cyngerdd gan Iwan Huws



31.10 ..... Tŷ Tawe, Abertawe

19:00 • Tocynnau £12

ticketsource.com/menter-iaith-abertawe

Albym newydd
Cowbois Rhos Botwnnog
'Haul Bach' ar gael nawr

TŶ TAWE PYST MENTRAU IAITH Noson Allan Night Out menter iaith abertawe

Cynllun Chwarae i blant 8 - 12 oed

A holiday playscheme for kids ages 8 - 12

£1 y sesiwn
Only £1

CLWB HWYL Y GWYLIAU



Gweithgareddau

- Gemau Bwrdd
- Crefft
- Chwaraeon
- ...a mwy!

10:00 - 12:00

YG Gŵyr
Heol Talbot
SA4 4DB

26 - 27 Hydref/Oct

YGG Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd
SA5 7BU

28 - 29 Hydref/Oct

menterabertawe.org/archebu

menter iaith abertawe

Cyngor Abertawe Swansea Council